# HANES YSGOL ESGERDAWE

M. E. Williams

GWASG GOMER
1982

Argraffiad cyntaf © Mehefin 1982

Ailgyhoeddwyd yn ddigidol gan
deulu'r awdur © 2022

ISBN 0850887070

Cedwir pob hawl. Ni ellir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig, electrostatig, tâp magnetig, mecanyddol, ffotogopïo, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd ymlaen llaw gan y cyhoeddwyr Gwasg Gomer, Llandysul, Dyfed.

*Atgofion melys am fam*
*a mam-gu annwyl*

*Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion Cyf.*
*Gwasg Gomer, Llandysul*

Paratowyd y cyhoeddiad digidol a'r clawr gan Gareth Davies

Cyflwynedig
i
Gyn-ddisgyblion
Ysgol Esgerdawe

## CYFLWYNIAD

Mae'r awdures wedi cyflwyno'r gyfrol hon i gyn-ddisgyblion yr ysgol ac mae'n dda iawn gennyf finnau gael y cyfle i gyflwyno'r llyfr nid yn unig iddynt hwy ond i'w rhieni a'u cydnabod, i ardalwyr Esgerdawe—y bobol oedd â'r ysgol yn agos iawn at eu calon, a hefyd i Gymry ymhobman a chanddynt ddiddordeb yn yr addysg a gyfrennir yn yr ysgolion bychain gwledig, tebyg i hon, p'le bynnag y bônt.

Ac mae rhai o'r ysgolion hyn ar ôl o hyd, trwy drugaredd, er bod eu nifer yn lleihau yn drychinebus yn y dyddiau diwethaf hyn gan adael "y filltir sgwâr" mewn llawer man yn anialwch noeth, diachles. A chyda'r blynyddoedd, bydd rhai "heb fod coffa amdanynt, y rhai y darfu amdanynt fel pe na buasent". Ond diolch yn fawr i'r awdures hon, fe ofalodd hi na châi hyn ddim digwydd i ysgol fach "annwyl" Esgerdawe.

Ar ôl ennill Y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Pantyfedwen, Llanbedr Pont Steffan, rhoes ei holl fryd ar ymchwilio yn fanwl iawn i bob agwedd o hanes yr ysgol o'r cychwyn cyntaf ac mae'r manylder gofalus hwn yn amlwg yn y Cynnwys ar y dechrau. Ac o'r dechrau ymlaen dyma'r stori antur ramantus yn datblygu, nid ar hyd llwybr union, dirwystr mae'n wir, ond dros ambell dwmpath yn awr ac yn y man, a thrwy ddrysni weithiau a drain a mieri, ond drostynt a thrwyddynt, ymlaen yr aeth yr ysgol, ac ymlaen yr aeth y gwaith, ac mae'n ddiddorol iawn darllen, yn y gyfrol hon, am y gwelliannau a'r cynnydd a wnaed yn yr adeiladau ac yn yr addysg mewn llai na chan mlynedd, nes cyrraedd safonau clodwiw cyn diwedd y daith.

'Anghofiaf fi ddim y tro cyntaf i mi ymweld â'r ysgol;—y "drws ma s" ar agor i'r cyntedd bach lle byddai'r plant yn hongian eu cotiau cyn mynd i mewn i'r 'stafell ddosbarth. Sefyll yno'n syfrdan wrth y drws ma's yn synnu a rhyfeddu at lendid disglair a difrychau'r llawr—rhaid bod pawb wedi mynd drosto yn nhraed eu sane! Yna, i mewn i'r 'stafell ddosbarth a chael croeso cynnes, llawen y Brifathrawes a'r plant. 'Roedd y desgiau

a'r lloriau yn loyw lân a hyd yn oed fachau pres y desgiau wedi teimlo grym y *Brasso* siwr o fod! Fe ddwedwn i ei bod yn go anodd i neb fod yn ddiofal ac anniben yn ei waith fan hyn. Ac nid oedd neb chwaith.

Wedyn, dyna gyfarfod â Miss Morgan—aelod llawn o'r teulu eto, yn rhan anhepgor o'r gymdeithas hapus; meddwl ei bod yn debyg i'r wraig yn Llyfr y Diarhebion yn gweithio "â'i dwylo yn *ewyllysgar*" a heb erioed fwyta "bara seguryd". Heblaw'r glanhau a rhannu'r ginio a chlirio, gwnâi lieiniau byrddau o gydau fflŵr a ffedogau i'r plant a'u golchi a'u smwddio. Dyna beth *oedd* "mynd yr ail filltir" a hynny yn *ewyllysgar.*

Ac mae'r hanes i gyd o fewn y gyfrol hon.

'Rown i wrth fy modd yn galw yma. Dim rhyfedd 'mod i'n tynnu plet heibio i Esgerdawe i fynd i lawr i Lansawel ac oddi yno 'nôl i Gaerfyrddin ar fy ffordd adre neu yn ôl wedi bod yn rhoi tro am 'Nhad a Mam dros y Sul yn Sir Aberteifi.

Rhoid yma addysg lawn, gyfoethog a châi'r plant lawer mwy na'r wybodaeth swyddogol a ddisgwylir mewn ysgol, ac 'roedd honno yn wybodaeth gyfoethog, amrywiol a'r plant yn cael profi swyn a chyfaredd barddoniaeth Gymraeg ar ei gorau, yn englynion a thelynegion beirdd a phrifeirdd cyfoes, ynghyd â'r holl adnodau o'r Beibl a chael cyfle i'w dysgu ar eu cof a'u hadrodd a'u canu gyda hwyl a mwynhad.

Wrth ddilyn hanes yr ysgol fach hon o'r dechrau, caiff y darllenydd ddarlun llawn, amryliw o'r gwahanol gyfnodau a gwerthfawrogi'r aberth cynnar a gweld y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed yn yr addysg ac yn yr adeiladau. Caiff synhwyro naws awyrgylch yr ysgol yn ei chyfnod olaf a dod yn ymwybodol o ddylanwad hyfryd y Brifathrawes a oedd hefyd gyda'r plant yn yr Ysgol Sul a'r Capel, lle byddai hi yn canu'r organ ac yn cymryd rhan werthfawr yng ngweithgareddau'r Cysegr. Ac ni all y darllenydd lai na gwerthfawrogi'r ffaith fod yr ysgol yn rhan fywiol o gyfanrwydd bywyd y gymdeithas yn Esgerdawe, a bod

yr hanes i gyd ar gof a chadw yn y gyfrol hon i'w fwynhau ac i ymfalchïo ynddo.

Mae'r awdures o hyd yn dal ar ei gwên. Mawr dda iddi hi ac i'r gyfrol ddiddorol a gwerthfawr hon.

**Margaret M. Jenkins**

CYNNWYS


| | Tud. |
|---|---|
| *Cyflwyniad* | 7 |
| *Gwerthfawrogiad* | 12 |
| Cefndir yr Hanes | 15 |
| Y Flwyddyn Gyntaf | 18 |
| Yr Adeiladau a Phethau Allanol | 26 |
| Yr Athrawon | 45 |
| Atgofion D. Derwenydd Morgan am Ysgolfeistri Cyntaf Esgerdawe | 49 |
| Atgofion Bore Oes am Ysgol Esgerdawe gan E. Tawe Jones | 53 |
| Hanes Rhai o'r Athrawon | 56 |
| Y Cynllun Gwaith | 72 |
| Rhai o Adroddiadau'r Arolygwyr | 82 |
| Digwyddiadau ym Mywyd y Plant | 86 |
| Gwyliau | 95 |
| Ymwelwyr | 101 |
| Rheolwyr a Gofalwyr | 108 |
| Pethau Diddorol o'r Llyfrau Cofnodion | 112 |
| Ystadegau o'r Dyddiau Gynt | 118 |
| Hanes Dau Sampler | 120 |
| Hen Atgofion | 123 |
| Direidi Plant | 127 |
| Y Flwyddyn Olaf | 130 |
| Diweddglo | 142 |
| *Rhestr o'r Tanysgrifwyr* | 146 |

# GWERTHFAWROGIAD

Pleser oedd ymchwilio hanes Ysgol Esgerdawe a'i groniclo yn y llyfr hwn. Bu'r fenter ar fy meddwl ers rhai blynyddoedd a phan ddaeth cyfle i gystadlu ar y testun yn Eisteddfod Rhys Thomas James (Pantyfedwen) Llanbedr Pont Steffan ym mis Awst 1980, euthum ati'n ddiymdroi. 'Rôl ennill y Fedal Ryddiaith am y gwaith, fe'm cymhellwyd i gyhoeddi'n llyfr. Felly, cnewyllyn y gyfrol yw'r hyn a baratowyd erbyn yr Eisteddfod honno.

Carwn ddiolch yn gynnes iawn i'r rhai a fu mor garedig â hyrwyddo fy llwybr. Dyledus wyf i lawer o gyfeillion.

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i Mr. W. J. Phillips, Cyfarwyddwr Addysg Dyfed am ei ganiatâd parod i mi gynnwys dyfyniadau o Gofnodion yr Ysgol ac eraill o recordiau'r Awdurdod Addysg. Hebddynt, buasai'r hanes dipyn tlotach. Diolch hefyd i Staff Swyddfa'r Archifydd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin am eu cymorth ynglŷn ag ymchwilio'r Llyfrau Cofnodion, ac i aelodau Staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth am bob rhwyddineb a chefnogaeth wrth ymchwilio nifer o ffynonellau hanesyddol.

Ymhellach, diolch i Mr. C. J. Delaney, Curadur Amgueddfa Sir Gaerfyrddin am ei ganiatâd i atgynhyrchu lluniau o ddau Sampler a'r hanes sy'n ynghlwm â hwy; i gwmni'r *Scholastic Souvenir*, Blackpool, am eu bodlonrwydd i gynnwys rhai lluniau; i bawb a roddodd fenthyg lluniau ac i Mr. Geraint Williams, Cellan am ddarlunio'r ysgol ar gyfer y siaced lwch.

Diolch yn gynnes i'r Uch-Gapten Herbert Lloyd-Johnes, Coates, ger Cirencester am ei ganiatâd i gynnwys eitemau o Lythyrau Dolaucothi; i'r Prifardd T. Llew Jones am ei fodlonrwydd parod i ddefnyddio englynion o'i eiddo; i Mr. D. L. Jones, Lango am ei ganiatâd caredig, dros y teulu, i gynnwys adroddiadau o waith ei dad, Mr. Thomas Jones, Gwarcoed, o'r gyfrol *Manion y Mynydd* (1938); i'r Parchedig E. Tawe Jones, cyn-Ficer Llangwyryfon am ei atgofion, ac iddo ef a'm mam, Mrs. M. A. George, Bryndafydd am wybodaeth am ddigwydd-

iadau diddorol o'r gorffennol; i'r cyn-athrawon am roddi hanes eu profiadau yn Ysgol Esgerdawe; ac i Miss S. G. Evans, gynt o'r Felin Ganol, Llanybydder am bob cymorth i ysgrifennu hanes ei brawd, Mr. E. H. Evans.

Gwerthfawrogaf bob symbyliad o eiddo ysgrifenyddion Eisteddfod Llanbed, y Parchedig D. J. Goronwy Evans, Mr. Edwin Jones a Dr. J. Ll. Williams.

Diolch hefyd i'm priod, ac i Gwyneth a Glesni am bob ysbrydoliaeth a chefnogaeth i gyflawni'r gwaith, ac yn arbennig i Glesni am deipio'r llawysgrif; yn ogystal, diolch am anogaeth cyfeillion bore oes.


Yn awr, braint a hyfrydwch yw cael diolch yn arbennig i Miss M. M. Jenkins, Cyn-Arolygwraig y Weinyddiaeth Addysg am ei pharodrwydd diflino wrth ddarllen y llawysgrif a'r proflenni ac ysgrifennu cyflwyniad i'r llyfr.

I derfynu, diolch i'r cyfeillion caredig yng Ngwasg Gomer am roddi caniatâd i gynnwys yr englyn, 'Pren Crin' gan Cledlyn, a rhan o'r gyfrol, *Trem yn Ôl* (1940) o eiddo D. Derwenydd Morgan. Yn bennaf, diolch iddynt am eu hamynedd a'u gwaith gofalus a graenus ynglŷn â chyhoeddi'r llyfr.

Os gadewais enw rhywun allan yn hanes yr hen ysgol annwyl, gwneud cam â rhywun, neu droseddu ar hawlfraint, dymunaf ymddiheuro'n llwyr.

Hyfrydwch pur i mi, yn awr, yw cyflwyno'r llyfr i gyn-ddisgyblion yr Ysgol, gan fawr hyderu y cânt hwy a phawb arall ychydig o fwynhad wrth ei ddarllen.

**Yr Awdur**



415
WT Sta
Mynydd Pencarreg
398
Maes-llan
331
Cwmcanol
352
Fron
Garth-lwyd
Dryslwyn
MS
Rhos-goch
Mount
283
326
221
Cefn-blaenau
Blaen-Ceiment
Cae-Mawr
Rhyd-lydan
202
252
283
Maes-troyddyn-fawr
176
361
Esgerdawe
Gwarcoed
Wern
Cwmdawe
Hafodymaidd
Esgair-living
Wenallt
Penarth-isaf
Rhiwrerfyn
Maestelle
Coed-y-gof
234
217
296
Gelli
Bryn-Dafydd
294
Bryniau
Pantmawr
Esgerwen
Allt Tan-y-coed
189
Blaengofuarth
Cwmeinon
Rhydcymerau
Pen-y-rhiw-fawr


Map o'r ardal

## CEFNDIR YR HANES

Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gwelwyd nifer o gyfnewidiadau yng Nghymru, yn grefyddol ac yn addysgol. Canrif yn llawn rhinwedd a gweledigaeth ydoedd. Ym 1867, pasiwyd y Ddeddf Diwygiad yn rhoi cyfle i'r dynion a drigai mewn trefi i bleidleisio. Yna, syweddolodd y Llywodraeth fod angen addysg elfennol fel y gallai'r pleidleiswyr ddefnyddio'u pleidlais yn synhwyrol.

Ceid yma ysgolion gwirfoddol eisoes, ond nid oedd addysg yn rhad nac yn orfodol. 'Roedd ysgolion Griffith Jones wedi cychwyn oddi ar y flwyddyn 1731. Mae'n debyg fod rhai ohonynt yn ardal Esgerdawe tua'r flwyddyn 1772 a thros bedwar ugain o ysgolheigion yn eu mynychu.

Ym 1870, pasiwyd Deddf Addysg yn y Senedd. Dyma un o'r Deddfau Addysg pwysicaf a wnaed. Trefnodd Llywodraeth Ryddfrydol Gladstone ddeddf i geisio sicrhau addysg elfennol i bob plentyn yng Nghymru a Lloegr. Sefydlwyd Byrddau Ysgol ym mhob ardal a'u pwrpas oedd trefnu i godi ysgolion lle 'roedd eu hangen. Er mwyn cael arian i godi'r adeiladau, rhoddwyd hawl iddynt godi trethi, a hynny ar gyfer cyflogi athrawon yn ogystal.

'Roedd yr ysgolion gwirfoddol i barhau i gyflwyno addysg, ond cymhellwyd hwy, ped ewyllysient, i ddod dan awdurdod y Llywodraeth. Ni chodwyd digon o ysgolion yn fuan wedi Deddf Addysg 1870, ac felly, ni chafwyd addysg orfodol nac addysg rad. Talai pob plentyn geiniog, dwy neu dair yn wythnosol. Eithr pan basiwyd Deddf Gorfodaeth ym 1880, daeth yn rheidrwydd ar blant fynd i'r ysgol hyd at dair ar ddeg oed. Un mlynedd ar ddeg yn ddiweddarach, daeth addysg elfennol yn rhad.

Onibai am y Deddfau Addysg a wnaed yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, hwyrach mai trigolion digon anllythrennog a geid yn ein gwlad yn yr ugeinfed ganrif. Dyledus ydym i'r arloeswyr hynny a fu'n palmantu'r ffordd er mwyn sicrhau addysg i bawb.

Yn ôl yr hanes, dechreuodd Bwrdd Ysgol Pencarreg ar y dasg o gael tir i adeiladu Ysgol Esgerdawe tua dechrau 1876. Dyma ddyfyniad o'r llythyr, dyddiedig Ionawr 28ain, 1876, a anfonwyd gan Mr. David Jones, Clerc y Bwrdd at y goruwchwyliwr tir, Mr. D. P. Davies, Troedybryn:

'I am directed by our Board to say that they wish to have half an acre of land at the place you have shown us by Esgerdawe for a Board School Site, and they beg to express a hope that you will kindly grant them that quantity.

I am also directed to ask you what is the price of it.'

Cafwyd gohebiaeth fanwl a chyson ar ôl hynny, rhwng perchennog y tir, John Johnes, ac yn ddiweddarach, Syr James Hills-Johnes, Dolaucothi, y cyfreithiwr, Mr. Sharon G. Turner, o Lundain a'r goruchwyliwr tir, sef Mr. D. P. Davies, Troedybryn. Y mae'r llythyrau bellach ynghadw yng Nghasgliad Cynwyl Gaeo yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Ar Ionawr 31ain, 1876, anfonodd Mr. D. P. Davies lythyr i John Johnes, Ysw., yn amgau'r llythyr a dderbyniodd oddi wrth Glerc y Bwrdd Ysgol. Dyma gopi o ran o'r llythyr hwnnw:

'I have enclosed a letter from Pencarreg School Board for your consideration.

I intend to call at Dolaucothy on Wednesday afternoon to consult you about the Pencarreg School Site.'

Wele ddyfyniadau pellach o lythyrau a anfonodd Mr. D. P. Davies at John Johnes, y cyntaf ar Fawrth 10fed a'r ail ar Ebrill 21ain, 1876:

'The tenant of Cwmdawe trusts that you will insist on having a 6 feet wall all round the playground to prevent trespass.'

'I have enclosed the plans and specifications, also block plans of the intended school-room at Esgerdawe, and, if convenient with you, I intend waiting on you on Thursday next for your replies to the Pencarreg School Board.'

Adeiladwyd yr Ysgol, ond, ysywaeth, ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw wybodaeth am hynny. Diddorol a fyddai gwybod pwy a fu'n cario'r defnyddiau angenrheidiol ac yn gosod maen ar faen. Diddorol hefyd a fyddai gwybod beth oedd yr ymddiddan a âi ymlaen rhwng y gweithwyr ynglŷn â'r fenter newydd hon.

Dyma ddyfyniad o lythyr a anfonodd Syr James Hills-Johns, yn ddiweddarach, at y cyfreithiwr, Mr. S. G. Turner:

'To the best of my belief, you have a Deed of Lease for the ground on which Cwmdawe School was built, to overhaul and put into shape.

Will you kindly inquire and see what has happened to this Deed, and if with you, have it duly executed.'

Dyma ran o atebiad y cyfreithiwr:

'I now have the pleasure of sending you, as promised in my last letter, a fair copy of the Lease originally proposed for the Pencarreg Board School.

On looking up the previous Correspondence in the matter I see that . . . I mentioned the following points originally alluded to in the proposed Lease of 1876 which I presume have been since complied with, viz:

1. That the ground was to have been enclosed by a substantial wall.
2. That a space for a Road, wide enough for two carts to pass should be left between the School Site and the Chapel Grounds.'

Mae'n debyg bod cymal arall yn y Brydles i'r perwyl nad oedd yr adeilad i'w ddefnyddio at unrhyw bwrpas ond ar gyfer Addysg Elfennol. Os oedd angen ei ddefnyddio i ryw ddibenion eraill, yna 'roedd yn rhaid gofyn i'r tirfeddiannwr am ei ganiatâd.

Yn ôl yr hanes, dymunai Syr J. Hills-Johnes gadw'r cymal hwn fel yr oedd yn y gwreiddiol. 'Roedd lles y gymdogaeth gan y diweddar John Johnes, yn ei feddwl, a theimlai fod gwir angen

am addysg ym mysg dosbarthiadau tlawd y wlad. Pe bai wedi bwriadu i'r adeilad gael ei ddefnyddio at bethau eraill, nid rhent bychan a fyddai wedi'i drefnu i'w dderbyn am y tir. Telid rhent o 10/- am y ddaear am gyfnod o gant namyn un o flynyddoedd.

## Y FLWYDDYN GYNTAF

Agorwyd Ysgol Fwrdd Esgerdawe ar Fai 14eg, 1877 a'r prifathro cyntaf oedd gŵr o'r enw Mr. J. Robert Airey, Sais uniaith.

Dyma'r cofnod cyntaf:-

Pencarreg School Board
Esgerdawe School

May 14th, 1877—I, Robert Airey commenced active duties as master of the above-named School, which was opened this day. 27 children were admitted. Mr. John Jones (Caemawr), a member of the Board present.

Wele gofnodion pellach ynglŷn â nifer y plant a dderbyniwyd:

May 21st—Nineteen fresh children admitted; several visitors from the neighbourhood came in to see the school.

May 28th—Fifteen children admitted. Mr. J. Jones again present. David Lewis, a pupil teacher from the Coedmore School, Lampeter, commenced active duties.

'Roedd yno dipyn o lawenydd a brwdfrydedd, debyg iawn, wrth ganfod nifer y plant yn cynyddu'n wythnosol. Erbyn diwedd Mai, 'roedd cyfanswm o drigain ac un ar y llyfrau. Gan fod y rhif yn ormod i unrhyw athro wneud cyfiawnder â phob plentyn, sicrhawyd gwasanaeth athro dan hyfforddiant, fel y gwelir yn y cofnod uchod. Monitor y gelwid athro o'r fath. Tâl bychan a gâi am ei waith a dysgai'r plant yn ôl cyfarwyddyd yr Ysgolfeistr. Câi ei addysg ei hun wedi oriau'r ysgol.